Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais am wybodaeth ar gyfer y rheiny sy'n cyhoeddi hysbysiad tâl parcio

**V888/3W**

**Darllenwch y nodiadau dros y dudalen cyn i chi lenwi'r ffurflen hon**

I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/request-information-from-dvla**

Defnyddiwch INC DU a PHRIF LYTHRENNAU wrth lenwi'r ffurflen hon.

## 1 Gwybodaeth y gallwch chi wneud cais amdani (gweler nodyn B dros y dudalen)

Gallwch wneud cais am enw a chyfeiriad ceidwad cofrestredig cerbyd ar ddyddiad penodol yn unig – **y ffi yw £2.50.**

Gallwch hefyd wneud cais am fwy nag un cerbyd. Y ffi yw £2.50 y cerbyd. Gweler nodyn B dros y dudalen i gael gwybod sut i wneud hyn.

## 2 Crynodeb a manylion y cwmni
**(gweler nodyn B dros y dudalen)**

Rhowch 'X' mewn **un** blwch yn unig.

Y fi yw'r tirfeddiannwr ac rwy'n rhedeg cynllun tâl parcio ☐

neu

Rwy'n asiant sy'n rhedeg cynllun tâl parcio ac yn gweithredu â chaniatâd y tirfeddiannwr ☐

Enw'r cwmni:

Enw(au) masnachu arall/eraill (os yn berthnasol):

Cyfeiriad (nid cyfeiriad Blwch Swyddfa'r Post):

Cod post:

Rhif ffôn cyswllt (rhag ofn y bydd angen inni gysylltu â chi):

Cyfeiriad e-bost:

Rhowch gyfeiriad e-bost dilys rhag ofn y bydd angen inni gysylltu â chi.

Dyddiad sefydlu'r cwmni: MM BBBB

Math o gwmni:

Enw'r corff rheoleiddio neu ATA:

Rhif cofrestru diogelu data:

Dyddiad y daw i ben: DD MM BB

Rhif Tŷ'r Cwmnïau (os yn berthnasol):

Eich cyfeirnod (os yn berthnasol):

## 3 Manylion y cerbyd rydych chi am gael gwybodaeth amdano (gweler nodyn B dros y dudalen)

Rhif Cofrestru Cerbyd:

Gwneuthuriad a Model:

## 4 Pam eich bod chi am gael y wybodaeth?
**(gweler nodyn B dros y dudalen)**

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

## 5 Sut ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r wybodaeth? (gweler nodyn B dros y dudalen)

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

## 6 Manylion i gefnogi'ch cais
**(gweler nodyn B dros y dudalen)**

Dyddiad y digwyddiad: DD MM BBBB

Lleoliad y digwyddiad (gan gynnwys cyfeiriad post)

**Sylwer, os ydych yn hela hysbysiad tâl parcio, bydd angen i chi aros 29 diwrnod ar ôl dyddiad y digwyddiad cyn gwneud cais. Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau lle mae dyddiad y digwyddiad dros 6 mis oed. Sicrhewch fod y lleoliad a nodwyd uchod yn cyfateb i'r lleoliad ar eich cytundeb.**

## 7 Datganiad

**Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Ni fyddaf yn defnyddio'r wybodaeth a roddir imi at unrhyw ddiben arall heblaw am yr hyn a nodwyd yn adran 5 ac ni fyddaf yn pasio ymlaen y wybodaeth at unrhyw drydydd parti arall ar gyfer aseinio dyled parcio perthnasol. Rwy'n ymwybodol ei bod yn drosedd i gaffael ar wybodaeth bersonol yn anghyfreithlon sy'n groes i ddeddfwriaeth diogelu data. Y cosbau am y troseddau hyn yw ddirwyon a gyhoeddir gan Lys Ynadon neu Lys y Goron. Rwy'n ymwybodol bod gen i ddyletswydd gyfreithlon i drafod a chael gwared ar unrhyw wybodaeth a ddarparwyd i mi gan DVLA yn unol ag egwyddorion deddfwriaeth diogelu data.

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐

Enw llawn:

Swydd yn y cwmni:

Llofnod: Dyddiad:

## A Gwybodaeth bwysig

- Mae'n drosedd i gaffael â gwybodaeth bersonol yn anghyfreithlon sy'n groes i ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r gosb ar gyfer y troseddau hyn yn ddirwyon a gyhoeddir yn Llys yr Ynadon neu Llys y Goron.
- Byddwn yn cynnal y gwiriadau angenrheidiol i sicrhau bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gywir.
- Bydd angen i chi roi mynediad i ni, neu asiant yn gweithredu ar ein rhan, at fannau gweithredol eich cwmni i archwilio'r dulliau prosesu.
- Bydd angen i ni wirio eich ffeiliau a chofnodion er mwyn i ni allu gwneud yn siŵr y defnyddir y wybodaeth at y dibenion y'i ceisiwyd ar eu cyfer yn unig.
- Byddwn yn darparu copi o'r cais hwn i geidwad cofrestredig y cerbyd yn adran 3 os gofynnir amdano.

## B Sut i lenwi'r ffurflen

### Adran 1 – Gwybodaeth y gallwch chi wneud cais amdani

**Ceisiadau lluosog**

- Gallwch chi wneud cais am wybodaeth am fwy nag un cerbyd, cyn belled â bod y rhesymau a roddir yn adrannau 4 a 5, a'r lleoliad a roddir yn adran 6, yr un fath ar gyfer pob cerbyd.
- Nid oes angen ichi lenwi adran 3 na dyddiad y digwyddiad yn adran 6.
- Gallwch chi anfon rhestr gyda'r ffurflen hon, â hyd at 15 cerbyd fesul dalen ar bapur pennawd y cwmni.
- Rhaid i chi ddarparu rhif cofrestru cerbyd, gwneuthuriad a model, dyddiad y digwyddiad a'ch rhif cyfeirnod ar gyfer pob cerbyd.

**Sylwer:** Os ydych chi'n gwneud ceisiadau am wybodaeth yn aml, efallai yr hoffech ystyried gwneud hyn yn electronig yn y dyfodol. I gael mwy o wybodaeth ebostiwch:
**kadoe-interest@dvla.gov.uk**

### Adran 2 – Crynodeb a manylion y cwmni

Rhowch yr holl fanylion y gofynnir amdanynt. Rhowch gyfeiriad ebost dilys os gwelwch yn dda (mae'n bosibl y bydd angen i ni gysylltu â chi am ragor o wybodaeth). Mae'n rhaid ichi ddarparu tystiolaeth inni i ddangos eich bod yn rhedeg cynllun tâl parcio/tresbasu.

Mae angen cadarnhad ysgrifenedig arnom:

- eich bod yn berchen ar y tir y mae'r cynllun tâl parcio arno, neu
- oddi wrth y tirfeddiannwr eich bod chi'n gweithredu â'i ganiatâd (os mai asiant ydych chi);
- bod arwyddion i'w gweld yn glir yn dangos eich bod yn cydymffurfio a chod ymarfer ATA.

**Math o gwmni**

Rhaid i chi ddweud wrthym pa fath o gwmni rydych chi'n ei redeg, er enghraifft, cynllun maes parcio neu drespas ar dir preifat.

Mae'n rhaid i'r holl gwmnïau sy'n cyhoeddi dirwyon parcio am droseddau parcio neu dresbasu ar dir preifat, fod yn aelod o Gymdeithas Masnach Achrededig (ATA) er mwyn gwneud cais am wybodaeth.

### Adran 3 – Manylion y cerbyd rydych chi am gael gwybodaeth amdano

- Rhowch yr holl fanylion y gofynnir amdanynt. Os na allwch chi roi'r holl fanylion hyn, efallai na fyddwn ni'n gallu prosesu'ch cais.
- Nid oes angen i chi lenwi'r adran hon os ydych chi'n gwneud cais lluosog – gweler nodyn B, adran 1 am wybodaeth ynglŷn â cheisiadau lluosog.

### Adran 4 – Pam eich bod chi am gael y wybodaeth?

- Mae angen i chi ddisgrifio'r sefyllfa a achosodd i chi fod eisiau enw a chyfeiriad ceidwad cofrestredig y cerbyd yn adran 3, ac ym mha ffordd yr oedd y cerbyd yn rhan o'r sefyllfa'n uniongyrchol.
- Os ydych chi'n gwneud cais am wybodaeth ynglŷn â mwy nag un cerbyd, mae'n rhaid i'r wybodaeth a rowch yn yr adran hon fod yn berthnasol i bob cerbyd.
- Gallwch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen.

Rhaid cadw'r holl dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi eich cais am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad yr ymholiad am resymau archwilio. Rhaid dileu'r holl wybodaeth bersonol a dderbynnir o DVLA unwaith y byddwch wedi gorffen ag ef.

### Adran 5 – Sut ydych chi'n mynd i ddefnyddio'r wybodaeth?

- Mae arnom angen cymaint o fanylion ag y gallwch ei darparu ynglŷn â sut rydych chi'n mynd i ddefnyddio'r wybodaeth.
- Os ydych chi'n gwneud cais am wybodaeth ynglŷn â mwy nag un cerbyd, mae'n rhaid i'r wybodaeth a rowch yn yr adran hon fod yn berthnasol i bob cerbyd.
- Gallwch barhau ar ddalen ar wahân os oes angen.
- Dylid defnyddio'r wybodaeth rydych yn gofyn amdani mewn modd teg a chyfrifol yn unig, ac at y diben y'i ceisiwyd ar ei gyfer.
- Ni allwch basio ymlaen gwybodaeth oddi wrth DVLA i drydydd parti arall nad ydynt yn gweithredu ar eich rhan fel is-gontractwr heb ganiatâd DVLA. Ysgrifennwch at dvladatarequest@dvla.gov.uk os ydych eisiau rhannu gwybodaeth gyda thrydydd parti. Nodwch ni allwch basio ymlaen gwybodaeth oddi wrth DVLA i gwmni trydydd parti ar gyfer trefniant aseinio dyled (ble mae dyled neu ddyled honedig sy'n cyfeirio at ddirwy parcio heb ei thalu yn cael ei haseinio neu ei gwerthu i gwmni trydydd parti sy'n dod yn berchennog cyfreithlon dros y ddyled)

Os byddwn yn derbyn cwyn cyfreithlon neu yn derbyn tystiolaeth eich bod wedi cael, defnyddio neu drafod gwybodaeth yn anghyfreithlon ac yn torri egwyddorion deddfwriaeth diogelu data, gallwn ei phasio at y Comisiynydd Gwybodaeth a gwrthod unrhyw geisiadau pellach.

### Adran 6 – Manylion i gefnogi'ch cais

- Rhowch yr holl fanylion y gofynnir amdanynt. Os na allwch chi roi'r holl fanylion hyn, efallai na fyddwn yn gallu prosesu'ch cais.
- Peidiwch â rhoi dyddiad y digwyddiad yn yr adran hon os ydych chi'n gwneud cais lluosog – gweler nodyn B, adran 1 am wybodaeth ynglŷn â cheisiadau lluosog.
- Os yw'r cerbyd wedi bod mewn mwy nag un digwyddiad, bydd angen ichi wneud cais ar wahân ar gyfer pob digwyddiad.

### Adran 7 – Datganiad

Rhaid i chi lofnodi'r datganiad a nodi'r dyddiad; os na wnewch hynny byddwn yn gwrthod eich cais am wybodaeth.

## C Sut i dalu a lle i anfon eich cais

Dylid gwneud sieciau ac archebion post yn daladwy i 'DVLA, Abertawe'. Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu wedi'u newid. Os ydych yn anfon siec sydd wedi'i difrodi neu wedi'i newid bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd atoch. Peidiwch ag anfon arian parod.

**Anfonwch y ffurflen hon gydag unrhyw ddogfennau ychwanegol, a'r ffi briodol, i:**
DVRE, DVLA, Abertawe SA99 1AJ.

## D Diogelu data

Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion a'r arweiniad diweddaraf am ryddhau gwybodaeth o'n cofnodion ar ein gwefan
**www.gov.uk/request-information-from-dvla**

**Cadwch yn gyfoes â'n newyddion diweddaraf a gwasanaethau yn gov.uk/dvla**

Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith cerbydau ffyrdd a chyfreithiau diogelu data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi ni i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i gwmnïau eraill ble y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu gyda, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn www.gov.uk/dvla/privacy-policy

*Prynu cerbyd?*

*Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.*

**www.gov.uk/vehicletaxrules**